**MÂN DDIWYGIADAU I GYNLLUNIAU PENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN**

Mae'r Ddogfen ymgynghori yn ymwneud â rhai diwygiadau allweddol arfaethedig i Gynllun 1992 ac i'r Cynllun Digolledu a fydd yn caniatáu i wŷr a gwragedd priod a phartneriaid sifil diffoddwyr tân cymwys sy'n eu goroesi gadw eu budd-daliadau pe byddent yn ailbriodi neu yn cychwyn partneriaeth sifil newydd. Mae diwygiadau arfaethedig hefyd yn cynnwys diwygiadau i ddarpariaethau trosiannol a wnaed gan Orchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru)(Diwygio a Darpariaethau Trosiannol) 2016, darpariaethau yng nghynllun 2015 yn ymwneud â'r hawl yng Nghynllun 1992 i aelodau trosiannol drosglwyddo rhan o unrhyw bensiwn afiechyd haen isaf, ac yn ymdrin â statws aelodau trosiannol sy'n cael eu hystyried ar gyfer ymddeoliad oherwydd afiechyd gan ymarferydd meddygol annibynnol cymwys ar adeg eu dyddiad trosi.

Nodir mân ddiwygiadau eraill yn y Gorchmynion drafft arfaethedig yn Atodiadau 1 a 2. Ceir manylion y rhain isod:-

**ADRAN 1**

**GORCHYMYN CYNLLUNIAU PENSIWN A CHYNLLUN DIGOLLEDU'R DIFFODDWYR TÂN (CYMRU)(DIWYGIO) 2018**

Diwygiadau arfaethedig i Gynllun Pensiwn 1992 a Chynllun Pensiwn 2007 a nodir yn y Gorchymyn drafft (Atodiad 2) yn Erthyglau 2(2), 2(4), 2(5) a 3.

- ***Diwygio darpariaethau a fewnosodwyd yng Nghynllun 1992 gan Reoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru)(Darpariaethau trosiannol a Chanlyniadol) 2015 (OS 2015/1016 (C. 71))*** - Mae'r fformiwla yn Atodlen 2, rhan 2A yng Nghynllun 1992 ar gyfer cyfrifo "darpariaeth o wasanaeth parhaus" yn cael ei chywiro i osod y cap ar 30 mlynedd o wasanaeth pensiynadwy. Gwneir mân ddiwygiadau eraill i reolau B1A, B2A, B5D(1A) a G1 a G2 o Atodlen 2 i Gynllun 1992.

- ***Diwygio rheol B5A paragraff 4B a fewnosodwyd yng nghynllun 1992 gan Orchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru)(Diwygio) 2014 (OS 2014/3242 (C. 329)) -*** Mae'r fformiwla ar gyfer cyfrifo pensiwn pan fo gan berson hawl i ddyfarniad afiechyd neu bensiwn a budd-daliadau gohiriedig o'r hawl i ddau bensiwn wedi ei chywiro.

- ***Diwygio Rhan 11, Rheol 1 paragraffau 7,8, a 9 a Rheol 2 paragraff 2A(b) a fewnosodwyd yn Atodlen 1 i Gynllun Pensiwn 2007 gan Reoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru)(Darpariaethau Trosiannol a Chanlyniadol) 2015 (OS 2015/1016 (C. 71))*** – mân ddiwygiadau yn ymwneud â rhifau paragraffau.

**ADRAN 2**

**RHEOLIADAU DRAFFT CYNLLUN PENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN (CYMRU)(DIWYGIO) 2018**

Mae mân ddiwygiadau o ddarpariaethau yn Rheoliadau 2015 sydd wedi eu cynnwys yn rheoliadau 3,5,6,7,8(2) o'r Rheoliadau Drafft yn Atodiad 3 yn cynnwys y canlynol:

- Rheoliad 30 – y talfyriad ar gyfer *Welfare Reform and Pensions Act 1999*
- Rheoliad 87 – budd-daliadau goroeswr (gwneir y diwygiad gan fod, drwy gydol y cynllun, gwasanaethu am dri mis yn ddigonol i fod yn gymwys ar gyfer budd-daliadau)
- Rheoliad 101 – cywiro'r geiriad i egluro bod y pensiwn profedigaeth ar gyfer plant cymwys
- Rheoliadau 120, 128, a 137 – diwygiadau mân iawn i'r geiriad.
- Atodlen 2 – Rhan 3A - paragraff 25 (mewnosodwyd gan OS 2015/1016 (C 71 – Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru)(Darpariaethau Trosiannol a Chanlyniadol) 2015 *(Rheoliad 2, Atodlen 1, Paragraff 7(d))-* Mae hyn yn cyfeirio at reol B1A(3)(i) ddwywaith. Y cyfeiriad cywir yw i B1A(3)(a).
- Atodlen 2 - Rhan 3C – paragraff 38 – Mae rheolwr y cynllun yn penderfynu nad yw aelod o Gynllun 1992 yn gymwys ar gyfer dyfarniad afiechyd (mewnosodwyd gan OS 2015/1016)(Rheoliad 2, Atodlen 1, paragraff 7(d)) – Cyfeirir at reol H2A ym mharagraff 38. Y cyfeiriad cywir yw i reol H2.
- Mae rheoliad 9 yn cywiro mân wall yn Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru)(Darpariaethau Trosiannol a Chanlyniadol) 2015.